## Cylch Gorchwyl Pwyllgor:
## GRŴP GWEITHREDOL IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD

Atebol i: Weithrediaeth y Brifysgol

Yn derbyn adroddiadau gan: Y Pwyllgor Diogelwch a Addaswyd yn Enetig; Pwyllgor Diogelwch Biolegol; Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch Adrannol.

Cyfarfod: 5 gwaith y flwyddyn

*Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Hydref 2023; diwygiwyd ddiwethaf: Hydref 2023; i'w adolygu nesaf: Medi 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Ysgrifennydd y Brifysgol (Cadeirydd)<br>• Un cynrychiolydd diogelwch o bob un o dair Undeb Llafur gydnabyddedig y Brifysgol<br>• Un cynrychiolydd myfyrwyr, a enwebir gan Undeb y Myfyrwyr<br>• Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd<br>• Pennaeth Datblygu a Dysgu Sefydliadol<br>• Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth<br>• Cynrychiolydd o blith staff uwch pob un o Gyfadrannau academaidd y Brifysgol<br>• Rheolwr Gweithrediadau, Ystadau, Adnoddau a Llety<br>• Rheolwr y Ffermydd<br>• Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol<br>• Cynrychiolydd o Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol.<br><br>15 aelod.<br><br>Trwy eu presenoldeb, bydd disgwyl i aelodau gynrychioli barn a buddiannau'r meysydd neu'r swyddogaethau y maent yn eu cynrychioli.<br><br>Cworwm: 8 aelod. | Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd. |

Cylch gwaith:

Mae Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn fforwm ymgynghorol i drafod a goruchwylio’r dulliau o weithredu strategaeth a pholisi’r Brifysgol yng nghyswlt iechyd, diogelwch, a’r amgylchedd, gan gynnwys trefniadau rheoli. Wrth wneud hynny, bydd y Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn gweithredu fel pwyllgor ymgynghorol ar gyfer cynrychiolwyr diogelwch a enwebir gan yr Undebau Llafur cydnabyddedig, yn unol â Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977. Mae'r Grŵp Gweithredol yn gyfrifol am gynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgorau llywodraethu eraill trwy Weithrediaeth y Brifysgol.

---

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried y canlynol a'u hargymell i gael eu cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol, neu gan bwyllgor llywodraethu trwy Weithrediaeth y Brifysgol:

    a. Yr adroddiad blynyddol ar weithgareddau iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol, a gyflwynir i Gyngor y Brifysgol yn y pen draw.
    b. Cylch gorchwyl Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, sydd i'w adolygu'n gyfnodol.
    c. Dogfennau polisi a gweithdrefnau'n ymwneud â materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.
    d. Strategaethau'r Brifysgol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
    e. Cynllun Gweithredol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a'r rhestr flaenoriaethau, gan gynnwys diweddariadau ynglŷn â chynnydd.

2. Ystyried y canlynol, a bod â'r awdurdod i'w hadolygu a'u cymeradwyo ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol:

    a. Dogfennau canllaw yn ymwneud â materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.
    b. Ffurflenni a thempledi dogfennau sy'n ymwneud â materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, gan gynnwys materion perchnogaeth a monitro mewnol.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgorau llywodraethu trwy'r Weithrediaeth, fel sy'n briodol ynghylch:

    a. Adroddiadau archwilio ar faterion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol, gan gynnwys Adroddiad y Syrfewyr Yswiriant bob dwy flynedd.
    b. Adroddiadau ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd, Diogelwch Tân, Asbestos, Addasu Genetig, Diogelwch Biolegol, Bywleiddiaid, a meysydd arbenigol eraill.
    c. Gwybodaeth am newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion da sy'n ymwneud â materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.
    d. Y Gofrestr Risg Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
    e. Data digwyddiadau a damweiniau (i gynnwys manylion digwyddiadau y dylid adrodd yn eu cylch).
    f. Unrhyw gamau gorfodi.
    g. Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol.
    h. Adroddiadau gan Bwyllgorau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Cyfadrannau a'r Gwasanaethau Proffesiynol, gan gynnwys trefniadau monitro diogelwch a gwelliannau yn y meysydd hynny.
    i. Unrhyw bryderon iechyd, diogelwch neu'r amgylchedd sy'n cael eu codi.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, bob chwarter o leiaf ar weithgareddau'r Pwyllgor. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i Weithrediaeth y Brifysgol trwy'r Ysgrifennydd y Brifysgol.